Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Nid oes rhaid i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain

Y gwirionedd Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i ddiogelu gweithwyr a'r cyhoedd rhag peryglon a achosir gan eu gwaith – ac mae HSE yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Ond nid cyfrifoldeb rhywun arall yw iechyd a diogelwch i gyd.

Mae gennym i gyd ddyletswydd i gadw ein hunain yn ddiogel, drwy gydymffurfio â mesurau diogelwch a pheidio â rhoi ein hunain na phobl eraill mewn perygl. Synnwyr cyffredin yw hyn – rhywbeth rydym i gyd yn ei ddefnyddio bob dydd.

Mae'n bwysig na chawn ein rhoi mewn risg gan weithrediadau pobl eraill, ond os byddwn yn anwybyddu ein cyfrifoldebau ein hunain, gellir methu risgiau go iawn. Nid yw beio pobl eraill yn cadw pobl yn ddiogel – mae'n well dibynnu ar synnwyr cyffredin a chydweithrediad.